



At sylw: Penaethiaid Ysgolion dalgylch Bangor

5^{ed} Mehefin 2018

Ras yr Iaith 2018 – 4^{ydd} o Orffennaf ym Mangor

Annwyl Benaethiaid,

Rydym yn ysgrifennu atoch chi ynghlŷn â chymal Bangor Ras yr iaith 2018.

Dyma gefndir a manylion y ras eto:

Bydd y ras hwyl yn ymweld ag amrywiol drefi yng Nghymru gan ddenu dros 1000 o gyfranogwyr a chodi dros £4000 at achosion lleol i gefnogi'r iaith. Y nod yw dathlu'r Gymraeg, Cymreictod a chymuned, a chael llawer o hwyl a sbri wrth wneud hynny.

Amserlen y ras

Mae Menter Iaith Bangor yn cydweithio â Mentrau Iaith Cymru i gynnal cymal cyntaf y ras ym Mangor. Dyddiad y ras yw **dydd Mercher, 4ydd Gorffennaf 2018**. Bydd y ras yn cychwyn o Gloc Stryd Fawr Bangor am **12:40** ac yn rhedeg o gwmpas y gadeirlan ddwywaith (o gyfeiriad Y Storiel) a pharhau i lawr y stryd Fawr gan ddarfod yn Ysgol Hirael. Hyd y ras ym Mangor yw oddeutu 2.42 km. Atodir map o lwybr y cymal (Atodiad A).

Noddi a rhedwyr

Er mwyn cymryd rhan yn y ras, gofynnir i ysgolion gyfrannu **£50**. Bydd hyn yn golygu bod modd i'r rhedwyr redeg cilomedr o'r ras er mae croeso i bawb redeg y ras gyfan. Bydd y rhedwyr yn cael trosglwyddo baton yn ystod y ras. Yr ysgol fydd yn dewis pwy sy'n rhedeg i gynrychioli'r ysgol. Bydd angen i athrawon yr ysgol redeg gyda'r plant. Rhaid pwysleisio er nad 'ras' yw hon (bydd pawb yn rhedeg ar gyflymdra hamddenol) nid yw'n bosib i bobl gerdded y cymal. Awgrymwn fod y plant sy'n rhedeg o iechyd corfforol derbynol. Deallwn hefyd y bydd rhai o ddisgyblion blwyddyn 6 sy'n bwriad mynd i Ysgol Uwchradd Tryfan mis Medi ar ymweliad trwy'r dydd a'r Ysgol, ac felly o bosib' ddim ar gael i gymryd rhan.

Rydym yn ymwybodol bod ysgolion yn ceisio codi arian at eu dibenion hunain. Felly, rydym wedi bod yn meddwl mai'r ffordd orau o bosib o godi'r £50 yw trwy gynnal digwyddiad neu weithgaredd syml fel diwrnod gwisgo dillad eu hunain neu wisg ffansi neu ddillad chwaraeon, neu bnawn paned a theisen efallai. Neu mae croeso i ysgolion ofyn i'r rhedwyr gasglu noddwyr eu hunain. Byddai unrhyw nawdd ychwanegol yn gallu mynd i goffrau'r ysgol wedyn. Mae croeso i bob ysgol feddwl am eu syniad gwreiddiol eu hunain wrth gwrs!

Diogelwch

Ar y cyfan, nid yw cymal Bangor yn mynd ar y ffordd fawr. Er hynny, bydd stiwardiaid (mewn siaced felen lachar) yn stiwardio llwybr y ras ac mewn cyffyrdd ar waelod y Stryd Fawr (Maes y Dref a Ffordd Glynne) ac am gyfeiriad Ysgol Hiracl. Mae gan y ras yswiriant indemniad o hyd at £5m ar gyfer y rhedwyr a'r stiwardiaid.

Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth am y Ras ar y wefan <http://rasyriaith.cymru/www.rasyriaith.cymru>. Mi ddarparwn ni ragor o wybodaeth ar ôl i chi gadarnhau eich bod am gymryd rhan.

Croeso mawr i chi gysylltu â Menter Iaith Bangor am ragor o wybodaeth neu i gofrestru (trwy e-bostio dylanbrynroberts@gwynedd.llyw.cymru neu ffonio 01248 370 050. Rydym yn gobeithio'n fawr iawn y byddwch yn ymuno â ni eleni, a rhannu'r profiad gwych o redeg i ddathlu ein hiaith.

Yn gywir,

Elin Walker Jones

Elin Walker Jones
Menter Iaith Bangor
elinmwj@btinternet.com
07808472204

ATODIAD A: Llwybr Cymal Bangor – Ras yr Iaith 2018

